# Cofnodion Cyfarfod 3/11/2022

Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Moira Mai, Sion McGuinness, Tony Parry, Eric Williams, John C Williams

Dilwyn Morgan, Cyngor Gwynedd

Lis Puw *(Clerc)*.

1. **Croesawyd pawb;** nid oedd ymddiheuriadau.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/10/22.

4. **Materion y Clerc:** *yn cynnwys*

   i. Trefniadau Sul y Cofio: Diolchwyd i John Caradog Williams am gynnig lanhau'r Gofeb fore Sadwrn 12/11/22 a gwahoddwyd gwirfoddolwyr i'w helpu. Amlinellodd y Dirprwy Faer y trefniadau ar gyfer 13/11/12, sef cyfarfod yn Eglwys Crist am 10.00a.m. a gorymdaith at y Gofeb yn dilyn y gwasanaeth. Y Lleng Brydeinig sydd yng ngofal y trefniadau. Mae archeb wedi ei wneud am dorch wen yn ychwanegol i dorch y Maer a thorch Cyngor Gwynedd.

   ii. Trefniadau Siopa Hwyr: 1/12/22, gyda gweithgareddau tebyg i llynedd.

   iii. Ymateb i gyflwyniad Is-bwyllgor Mynediad: Anfonwyd at NMWTRA, Cyngor Gwynedd, Ardal Ni; trafodwyd gyda Mabon ap Gwynfor, a addawodd ei gefnogaeth a chymorth.

   Cytunwyd gyda'r amcan i wneud Y Bala yn Dref Gyfeillgar.

   iv. Parcio cyfyng i'r de o siop y Co-op – ymatebodd NMWTRA y byddant yn rhoi ystyriaeth i hyn.

   v. Tocio'r coed – ni chafodd y Cyngor ymateb gan NMWTRA.

   vi. Cyfleusterau cyhoeddus: bu problemau strwythurol eto yn y Grin.

   vii. Arwydd Croeso i'r Bala – adroddiad Eluned Jones a Moira Mai. Beirniadwyd y gystadleuaeth ond bydd angen addasu'r dyluniad llwyddiannus a luniwyd gan Izabelle Ranson, Ysgol Godre'r Berwyn.

viii. E-bost cynghorwyr – derbyniwyd adroddiad Eifion Roberts a chytunwyd gyda'r ffurf tom.ellis.cyngortrefybala@............... Gofynnwyd i'r Cynghorwyr anfon eu cyfeiriadau ebost fel Cynghorydd at y Clerc.

ix. Ymweliad ag argae Llyn Celyn (Tony Parry a John Caradog Williams ): Adroddwyd iddynt gael eglurhad llawn o'r cais cynllunio sydd yn yr arfaeth. Bydd y gwaith yn parhau o 2023-2025. Cafwyd sicrwydd fod yr argae mewn cyflwr diogel iawn.

x. Adroddiad o Gynhadledd ar lein *Adeiladu Lleoedd Cydnerth ar gyfer Natur* Un Llais Cymru 27/10/22. Dywedodd Fiona Hopkins ei bod wedi mynychu a chael ysbrydoliaeth o gyflwyniadau arbennig Cynghorau Cricieth ac Abergele.

xi. Casglwyd dymuniadau hyfforddiant er mwyn i'r Clerc geisio llunio Cynllun Hyfforddiant am y 5 mlynedd nesaf o fewn y gyllideb sydd ar gael.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Roedd wedi derbyn ymateb gan NMWTRA. Bob Griffiths yw'r cyswllt lleol ac mae cynllun gwaith tymor byr o docio a fydd yn cychwyn yn y flwyddyn newydd. Bydd cynllun tymor hir o gynnal coed ar y stryd yn ymestyn dros 25 mlynedd.

   Mae'r Ganolfan Deulu yn agor ar ôl hanner tymor ac mae'n cynnwys holl ddarpariaeth addysg a gofal meithrin y dref.

   Bydd y Cynghorydd yn cyfarfod Swyddog Dementia Gwynedd a Chomisiynydd Pobl Hŷn yn fuan, a bydd yn trafod **Bala Gyfeillgar** yn rhan o'i rôl fel Pencampwr Oed Gyfeillgar Gwynedd.

   20mya wrth Ysgol Godre'r Berwyn: mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r awdurdod i Gyngor Gwynedd weithredu ac mae swyddog wedi ei benodi i ymwneud â'r trefniadau. Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i geisio prysuro'r trefniadau.

   Trafodwyd dyfodol Neuadd Buddug. Mae diddordeb yn yr adeilad wedi cael ei ddangos ers y cyfarfod diwethaf; nid yw'r Swyddog ar gael ar hyn o bryd am fanylion pellach, ond mae wedi datgan na fydd dim yn gallu digwydd yn Neuadd Buddug a fydd yn cystadlu mewn unrhyw ffordd a Theatr Derek Williams, oherwydd fod y Cyngor wedi buddsoddi yn hwnnw. Cytunwyd y byddai'n ddymunol pe byddai'r Cyngor Tref yn anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am y cyfle i fod yn rhan o'r sgwrs am ddyfodol Ysgol Bro Tegid a Neuadd Buddug.

   Holwyd a fyddai cae Ysgol Bro Tegid yn dod yn ran o adnoddau'r dref, ond dywedwyd nad yw'r sgwrs hon wedi digwydd eto.

   Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei adroddiad a'i waith.

6. **CAfit4C21:** Cytunwyd i gymeradwyo adroddiad Parc Cenedlaethol Eryri "Ardaloedd Cadwraeth sy'n addas ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain" oherwydd ei fod yn ceisio

gwarchod cymeriad hanesyddol y dref. Nodwyd byddai'r cynllun hwn yn cael effaith ar geisiadau cynllunio o fewn yr Ardal Gadwraeth. Trafodwyd y mater hwn yn gyntaf ym mis Mawrth 2022 ac awgrymwyd y gellid cynnwys – ar ôl ymgynghori â pherchnogion - nifer o adeiladau nodedig eraill yn y Bala tu allan i'r ffin yn y cynllun hwn.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

    i. Amgylchedd: bwriedir creu cyflwyniad gyda lluniau

    ii. Asedau: mae gwaith yn cael ei wneud ar un o'r meinciau, ond awgrymwyd y byddai map/lluniau o gymorth i adnabod anghenion. Adroddwyd bod y glanhawr yn cwyno y bu llawer o drafferthion yn nhoiledau'r Grin dros yr haf. Mae John Caradog Williams yn ymdrin a'r polion fflag a'r baneri. Llochesi – gofynnwyd i Gynghorwyr dynnu posteri os gwelant rai. Mae di-ffib y Rotari wedi ei dynnu. Awgrymwyd fod angen un ychwanegol yn y dref.

    iii. Nadolig: mae'r gwaith papur wedi ei gwblhau ac mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydd goleuadau ar y Stryd Fawr.

    iv. Cyllid: mae angen anfon ceisiadau gwariant yr is-bwyllgorau ar gyfer 2023-24 at yr Is-bwyllgor Cyllid gan y byddant yn llunio cyllideb yn fuan iawn.

8. **Polisi Cyfathrebu:** rhannwyd model Un Llais Cymru ar gyfryngau cymdeithasol. Dywedodd Clare Mackintosh bod angen treulio peth amser i lunio strategaeth.

*9.* **Materion Cynllunio**: *yn cynnwys:*

  i. NP/53/598B Tir ger Ffynnon Beuno – cais amlinellol i godi un tŷ. Cytunwyd i argymell gwrthwynebu'r cais hwn. Roedd nifer o bryderon am y cais:
   - Mae'r datblygiad arfaethedig yn anghydnaws â'r olygfa stryd; tai un llawr yw'r tai eraill i gyd yn yr ystâd hon.
   - Byddai'r adeilad yn y cynllun yn cysgodi'n ormesol yr anheddau gerllaw.
   - Mae'r plot yn rhy fychan i'r cynllun ac fe fyddai'r cynllun yn arwain at or-ddatblygu'r safle.
   - Byddai'r adeilad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar safle hanesyddol Ffynnon Beuno, safle sy'n bwysig iawn i hanes Y Bala a Chymru.
   - Mae'r Cyngor yn ategu sylwadau Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru: mawndir yw'r tir hwn – enw hanesyddol yr ardal yw Mawnog Fach – a gallai draenio effeithio'n andwyol ar Ffynnon Beuno.

Yn ystod y drafodaeth holwyd am berchnogaeth y tir dan sylw; nid oedd yr aelodau yn ymwybodol ei fod wedi ei werthu gan Gyngor Gwynedd.

**ii NP5/53/576 a NP/70/LB28** - nid oedd sylwadau ychwanegol i'r hyn a anfonwyd gan y Cyngor ar 20/1/22

**10. Materion Cyllid:**

**i.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

**ii.** Ystyriwyd derbyniadau'r mis a'r anfonebau i'w talu**:**

| | | |
|---|---|---|
| Cytundeb Llochesi | 50.00 | |
| Cytundeb Y Domen | 960.00 (cynnwys TAW £160) | |
| Cytundeb Toiledau | 4000 x 2 (cyfanswm £8000.00) | |
| HMRC | 327.40 | |
| Tal aelodaeth SLCC | 48.00 | (£144 wedi ei rannu rhwng 3 cyngor) |
| Cytundeb Clerc | | |

**11. Gohebiaeth:** *Amlinellodd y Clerc gynnwys:*

**i.** Llywodraeth Cymru : Papur Gwyn Diwygio Etholiadau

**ii.** Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad Comisiwn Ffiniau Etholaethau

iii. Llywodraeth Cymru: Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol

iv. Neges am Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru: cytunwyd i anfon at Ambiwlans Awyr i fynegi pryder am golli 2 ambiwlans nepell o'r Bala.

v. Cais am fainc coffa: cytunwyd i lynu at y polisi o awgrymu plannu coeden yn hytrach na derbyn mainc coffa. Nid y Cyngor Tref yw perchennog y llwybrau a'r tir o'u cwmpas.

vi. Cyngor Llandderfel: Cytunwyd a chais am gefnogaeth i reoli cyflymder traffig ar yr A494.

vii. Cyngor Gwynedd: bydd y Tîm Tacluso yn gweithio yn Y Bala yn ystod y mis.

**12. Partneriaeth Penllyn:** Bydd adroddiad y mis nesaf.

13. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref**

i. Cost parcio wrth y Ganolfan Hamdden (Jacqueline Allen): derbyniwyd gwybodaeth mai Cwmni Byw yn Iach sydd yn gyfrifol am y maes parcio.

ii. Cyfoeth Naturiol Cymru: bydd Tony Parry yn trefnu cyfarfod i drafod llwybrau a lleoliad meinciau gyda Andrew Basford, Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8/12/22

Amser gorffen: 8.45pm



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)